

## CYWEIRIAU'R IAITH – TAFLEN 1a

### BETH YW CYWAIR?

Mae anghytuno hyd yn oed ymhlith arbenigwyr; darllenwch y dyfyniadau isod:

- ‘Mewn astudiaeth ar y Gymraeg, defnyddia Clayton (1978) y label **cywair (register)**. Ond mae i’r enw hwn hanes amrywiol yn y maes o astudio amrywiaeth iaith, ac mae tuedd i’w ddefnyddio yn label cyffredinol ar gyfer sawl math o amrywiaeth.’  
Bob Morris Jones yn *Ar Lafar ac ar Bapur* (GAA, 1993)
- ‘I have used the term ‘style’ ...to refer to language variation which reflects changes in situational factors, such as addressee, setting, task, or topic. Some linguists describe this kind of language variation as ‘register’ variation. Others use the term ‘register’ more narrowly to describe the specific vocabulary associated with different occupational groups. The distinction is not always clear...’  
Janet Holmes yn *An Introduction to Sociolinguistics* (Longman, 1992)
- ‘**Register:** a socially defined variety of language, e.g. scientific, legal, etc.’  
(Crystal, D., Cambridge Encyclopedia of Language 2<sup>nd</sup> edition. (CUP, 1998)
- ‘Iaith fydd yn gweddu i’r gynulleidfa ac yn addas i’r pwrpas.’  
(Gwefan Canolfan Bedwyr, [www.bangor.ac.uk](http://www.bangor.ac.uk))

Pa un o’r dyfyniadau hyn sy’n apelio fwyaf atoch?

## CYWEIRIAU'R IAITH – TAFLEN 1b

At ddibenion eich gwaith ysgrifennu yn y coleg, mae'n debyg mai'r diffiniad symlaf (a'r hawsaf) yw'r olaf, sef diffiniad Canolfan Bedwyr:

### 'Taith fydd yn gweddu i'r gynulleidfa ac yn addas i'r pwrpas'

Wrth ddewis y cywair priodol felly, rhaid nodi:

- Pwy yw eich cynulleidfa? (e.e. darlithydd, tiwtor, arholwr, cyd-fyfyrwr, cyfaill) Pa mor ffurfiol/anffurfiol?
- Beth yw'r sefyllfa? (e.e. academaidd, personol, cyfeillgar, niwtral) Pa mor ffurfiol/anffurfiol?
- Beth yw'r cyfrwng? (e.e. traethawd, papur arholiad, anerchiad, adolygiad, ymateb personol, e-bost) Pa mor ffurfiol/anffurfiol?

O ddadansoddi'r gwahanol elfennau hyn a phenderfynu pa mor ffurfiol/anffurfiol yw bob un, gallwch werthuso pa gywair sy'n briodol i'ch neges chi.

Ond cofiwch:

- ❖ Nid dau begwn â gofod mawr rhyngddyn nhw yw'r ffurfiol a'r anffurfiol, ond graddfa sy'n symud yn raddol o'r naill begwn i'r llall.

1                      2                      3                      4                      5  
ANFFURFIOL ----- FFURFIOL  
llafar

- ❖ Yn gyffredinol iawn, bellaf oll yr ewch chi oddi wrth yr elfennau sy'n nodweddu'r iaith lafar a'r tafodieithol, agosaf oll yr ewch chi at y ffurfiol a'r ysgrifenedig. (Ond cofier am rai eithriadau llenyddol, e.e. *Un Nos Ola' Leuad*, sy'n defnyddio tafodiaith i adrodd stori'r nofel.)

Ar Daflen 2 fe welwch rai elfennau sy'n nodweddu'r ffurfiol a'r anffurfiol

<b>CYWEIRIAU'R IAITH - TAFLEN 2</b>	<b>Rhai elfennau sy'n nodi'r gwahaniaeth rhwng y cywair ffurfiol a'r anffurfiol</b>
<b>ANFFURFIOL</b>	<b>FFURFIOL</b>
berfau <b>cwmpasog</b> neu beriffrastig, e.e. mae'r plant yn cerdded i'r ysgol/wneiff y plant gerdded i'r ysgol	berfau <b>cryno</b> e.e. cerdda'r plant i'r ysgol
ffurf amhersonol <b>gwmpasog</b> , e.e. cafodd y drych ei falu, malodd rhywun y drych	ffurf amhersonol <b>gryno</b> e.e. malwyd y drych
negyddu: <b>dim</b> e.e. ddarllenodd Siôn ddim y papur	<b>ni</b> e.e. ni ddarllenodd Siôn y papur
cwestiynau: ddarllenodd X y papur?	<b>a</b> ddarllenodd X y papur?
<b>yn tydyn:</b> mae'r gwleidyddion yn gwybod pob dim, yn tydyn?	<b>oni(d):</b> onid yw'r gwleidyddion yn gwybod pob dim?
<b>peidiwch â ...</b> cherdded ar y glaswellt	<b>na:</b> na cherddwch ar y glaswellt
<b>os:</b> gofynnodd os oedd yr aelodau'n fodlon	<b>a:</b> gofynnodd a oedd yr aelodau'n fodlon
<b>nhw</b>	<b>hwy/hwynt</b>
<b>ffurfiau ar rai ansoddeiriau e.e. gwyn, syml, byr, du ayb</b>	<b>wen, gwynion, seml, fer, byrion, duon ayb</b>
<b>defnydd helaeth ar 'wnaeth' a 'ddaru' fel berfau cynorthwyol</b>	<b>amser y ferf</b>
<b>y dyn yma/y ddynes yma/y bobl yma</b>	<b>hwn/hon/y bobl hyn</b>
<b>os mae, pan mae</b>	<b>os yw, pan yw</b>
<b>diffyg treigladau e.e. ci a cath</b>	<b>cadw'r treigladau e.e. ci a chath</b>
<b>dim 'h' o flaen llafariad o flaen ffurfiau perthnasol y rhagenw perthynnol e.e. ein amser</b>	<b>cadw'r 'h' e.e. ein hamser</b>

Mae rhai geiriau ac ymadroddion penodol hefyd yn medru dynodi ffurfioldeb, e.e.:

**megis**  
**oblegid**  
**bid siwr**  
**diau**

A allwch chi feddwl am enghreifftiau pellach?

### CYWEIRIAU'R IAITH – TAFLEN 3

**Darllenwch y chwe dyfyniad isod a rhowch sgôr o 1 (anffurfiol iawn) i 5 (ffurfiol iawn) am bob un. Eglurwch yn fyr ar sail ba nodweddion yr ydych yn gwneud hynny (gweler Taflen 2 am enghreifftiau posib).**

#### 1

Yn ei hanfod, yr un ddadl yw'r ddadl wrth-gynganeddol â chŵyn y bobl hynny dros y canrifoedd sydd wedi lladd ar yr iaith Gymraeg oherwydd ei bod yn sefyll yn ffordd cynnydd. O'r Llyfrau Gleision (Ni ddaw cynnydd tra phery iaith y tafarnau a'r ffeiriau) at 'sosialaeth ryngwladol' honedig gwleidyddion diweddar [a fynegir yn uniaith Saesneg] (Ni ddaw rhyddid tra phery iaith snobs dosbarth canol y capeli), yr un yw'r ddadl. A'r un yw'r gwallau yn y ddadl – priodolir i'r iaith gyfan nodweddion rhai o'i siaradwyr, a drysir rhwng CYFRWNG Y DWEUD A'R HYN A DDYWEDIR.

(o 'Taksi i'r Tywyllwch' gan Emyr Lewis, yn *Taliesin*, 114 Gwanwyn 2002)

**Sgôr o 1 (anffurfiol iawn) i 5 (ffurfiol iawn):**  
**Ar sail y nodweddion:**

#### 2

Tra mod i'n eistedd yma'n sgrifennu mae hi'n agosáu at ddiwedd blwyddyn, neu at ddechrau un – a dibynnu sut y'ch chi'n edrych ar bethau – ac mae hi'n anodd peidio â bod yn ddigalon neu'n besimistaidd. Dwi'n clywed sŵn y ffair yn cynyddu yn fy nghlustiau ond teimlaf yn drist hyd at dagrau pan ddaw Rhagfyr i gau'r drws yn glep yn nau wyneb Ionawr. Dwi'n gwybod ei bod hi'n gychwyn ar flwyddyn newydd; ail gyfle i wneud yn well wedi llanast y deuddeg mis a fu. Ond fedra' i ddim ond teimlo'n isel o golli'r hen flwyddyn, waeth pa mor shimpil oedd hi. Ac mi wn i y bydda' i'n gwneud addunedau dim ond er mwyn cau sŵn y gwacter allan o 'mhen; codi fy nghalon drwy gadw cwmni i mi fy hun yn fy nŵwch wrth weld blwyddyn arall yn diflannu i un o gorneli tywyll y cof.

(o 'Clustfeinio' gan Elinor Wyn Reynolds, yn *Taliesin*, 114 Gwanwyn 2002)

**Sgôr o 1 (anffurfiol iawn) i 5 (ffurfiol iawn):**  
**Ar sail y nodweddion:**

### 3

Mae hanes diweddar pentrefi Cefnpennar a Chwmpennar yn ne Cymru, yn debyg iawn i rai o bentrefi cefn gwlad Pen Llŷn.

Dyna pam fod criw o bentrefwyr wedi teithio i fyny i Lithfaen yr wythnos ddiwetha' gyda'u Aelod Cynulliad, Pauline Jarman, gyda'r bwriad o weld sut y gallan nhw ddysgu oddi wrth brofiadau pobol Llŷn.

Pan ddaeth y penderfyniad i gau'r ysgol leol yng Nghefnpennar yn yr 1980au, fe syrthiodd y fwyell ar y swyddfa bost a'r siop leol hefyd.

Ers hynny, mae triglion y ddau bentre' bach yng Nghwm Cynon wedi gorfod teithio'r milltir a hanner i Aberpennar i gael nwyddau a gwasanaethau.

(o 'Popeth yn lleol' gan Barry Thomas yn *Golwg*, 14.22, Chwefror 14 2002)

**Sgôr o 1 (anffurfiol iawn) i 5 (ffurfiol iawn):**

**Ar sail y nodweddion:**

### 4

Mae'n swyddogol bellach. Rydyn ni'n genedl cwbl boncyrs! Fe brofwyd hynny nos Fercher a dydd Iau diwetha'. Y cyfan oedd wedi digwydd oedd ymddiswyddiad Graham Henry fel hyfforddwr ein tîm rygbi cenedlaethol, ac fe aeth pawb yn wallgo' bost. Mi fasach chi'n credu ein bod ni o fewn trwch blewyn i ddiwedd y byd.

Roedd ein cyfryngau torfol wedi colli pob rheolaeth, ac fe aeth gwrthrychedd newyddiadurol allan drwy bob ffenest olygyddol yng Nghaerdydd. Y fath ffwlbri a diffyg cydbwysedd! Afraid dweud mwy am y gwallgofrwydd anfaddeuol.

(o 'Y Gair Ola' gan Gwilym Owen yn *Golwg*, 14.22, Chwefror 14 2002)

**Sgôr o 1 (anffurfiol iawn) i 5 (ffurfiol iawn):**

**Ar sail y nodweddion:**

## 5

Digwydd sylwi ar yr hysbysiad yn y Cambrian News – a chael fy nhemtio!

Hysbysiad am gais i fod yn ddyn hufen iâ yn Ynys-las dros yr haf.

Ac roedd y syniad yn apelio'n fawr.

Y traeth eang. Y bryniau oddi amgylch. Dyfroedd yr aber yn newid eu ffurf byth a beunydd. Aberdyfi rhwng môr a mynydd yr ochr draw.

Ac yn fwy na dim, marchnad helaeth – cyfle i werthu hufen iâ gorau Cymru i lu o gwsmeriaid newydd. Ehangu – dyna'r gair. Gadael y caban yma ar y prom yn Aber yn nwylo cyfaill, a chwilio am farchnadoedd gwahanol, fel mae'r ffermwyr yn ei wneud.

A phwy a wŷr? Efallai y byddai rhywun pwysig o Tesco neu Sainsbury's yn dod heibio ar wyliau, ac yn prynu fy hufen iâ, ac yn cael cymaint o flas arno nes...nes...

Ie, gallwn weld fy hun yn darparu hufen iâ wrth y dunnell i ryw gwmni mawr, ac yn gwneud ffortiwn i mi fy hun. Prynu tŷ newydd wedyn. Prynu car newydd sbon am y tro cyntaf erioed hefyd. Syr David efallai, gydag amser. Yr Arglwydd David?

Ond dyma fi'n rhoi'r gorau i'r holl freuddwydion ffôl. Dewch heibio eto yr haf nesaf 'ma – bydda' i'n dal wrthi yn y caban bach ar y prom. Oherwydd yn y bôn rwy'n gwybod fod yr hen adnod yn gwbl wir; 'Nid yw bywyd dyn yn sefyll ar amllder y pethau sydd ganddo.'

(o 'Ar Lan y Môr' gan Dai Hufen Iâ yn *Yr Angor*, Chwefror 2002)

**Sgôr o 1 (anffurfiol iawn) i 5 (ffurfiol iawn):**

**Ar sail y nodweddion:**

## 6

Dyna'n fras bum pwynt damcaniaeth. Eu nodi a wnafl, a'u trafod rywbryd eto. Ond amlyga'r ymarferiad syml hwn - plentynnaidd o syml, hwyrach – yr hyn sydd amlwg ddigon i mi, sef nad oes modd i feirniad llenyddol beidio â choleddu damcaniaethau llenyddol - syniadau am werth a diben llenyddiaeth – hyd yn oed os nad yw'n mynychu cynadleddau a gynhelir dan nawdd Cymdeithas y Dyneiddwyr Rhyddfrydol.

(o 'Camfarnu neu Garfanu Beirniad Llenyddol?' gan Tudur Hallam yn *Taliesin*, 114 Gwanwyn 2002)

**Sgôr o 1 (anffurfiol iawn) i 5 (ffurfiol iawn):**

**Ar sail y nodweddion:**